# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 02.09.15

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Tudor Owen (Cadeirydd) Y Cynghorwyr Angela Russell ac Elfed Williams

**Swyddogion:** Sïon Huws (Uwch Gyfreithiwr), Sheryl Le Bon Jones (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**1. CROESO ac YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cynghorydd Tudor Owen. Cyflwynwyd y panel ar swyddogion i bawb oedd yn bresennol.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

**5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT**

a) Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat o'r newydd. Nodwyd bod datganiad o gollfarnau wedi ei gyflwyno, ac oherwydd bod troseddau yn parhau yn berthnasol yn y maes trwyddedu, gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DAS, ac yn unol â'r canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol.

b) Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei gais. Cydnabuwyd bod y troseddau a ddatgelwyd wedi digwydd o fewn cyfnod ei arddegau o ganlyniad i benderfyniadau anaeddfed. Ymhelaethodd ei fod yn edifarhau a'i fod bellach yn dad cyfrifol gydag agwedd bositif at fywyd a gwaith. Nododd hefyd ei fod wedi cael cynnig swydd gyda chwmni lleol.

   Cyflwynwyd llythyr geirda o gymeriad yr ymgeisydd a cadarnhaodd y Rheolwr Trwyddedu bod cais ar lafar wedi ei wneud i gyflogi'r ymgeisydd, ei fod wedi pasio prawf meddygol ac wedi pasio prawf gwybodaeth.

c) Ymneilltuodd yr ymgeisydd o'r ystafell tra y bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

ch) Ar ôl ystyriaeth fanwl, penderfynodd yr Is-bwyllgor bod yr ymgeisydd yn berson addas i gael trwydded yrru, a chaniatawyd y cais. Teimlai'r Is-bwyllgor i'r ymgeisydd gydnabod difrifoldeb y drosedd ac nid oedd yn cuddio ar ei fai. Cydnabuwyd hefyd ei fod wedi tystiolaethu dros newid ei ffordd o fyw.

**PENDERFYNWYD caniatáu cais Mr A am drwydded hacni/hurio preifat.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r Uned Trwyddedu yn anfon llythyr i'r ymgeisydd yn cadarnhau penderfyniad yr Is-bwyllgor.

Dechreuodd y cyfarfod am 3:30pm a daeth i ben 4:10pm